| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Mawrth 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol - Cyllid ac Effeithlonrwydd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |

**Teitl: Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynigion Cyfalaf a dderbyniwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor archwilio, wedi cyfarfod ar nifer o achlysuron i ystyried cynigion a baratowyd gan bob adran.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn atodiad 1 i'w cynnwys yng nghynlllun cyfalaf 2014/15, ac mae'n argymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Roedd setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 yn £22k yn is nag ar gyfer 2013/14.

4.2 Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond dibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu naill ai gwerthu asedau i gynhyrchu derbyniadau neu ddefnyddio Benthyca Darbodus.

4.3 Mae'r Cyngor yn anelu at gael gwared ar nifer o safleoedd dros y tair blynedd nesaf. Gall gwerthu asedau, fodd bynnag, fod yn araf gyda gwerthoedd yn ansicr ac amseru derbyniadau yn anodd ei ragweld. Mae'r amodau economaidd presennol hefyd yn ychwanegu risg pellach a byddant yn rhoi pwysau ar werthoedd. At ddibenion yr adroddiad hwn, nid yw derbyniadau cyfalaf newydd wedi'u tybio a'r unig gyllid a ddyrennir yw'r rhai sydd eisoes wedi dod i law.

4.4 Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2014/15 yn cael ei ddangos isod:

| **Ffynhonnell** | **Swm £000** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,833 |
| Benthyca â Chymorth heb ei bridiannu | 3,011 |
| Benthyca Darbodus - Priffyrdd | 4,643 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 136 |
| Arian Wrth Gefn heb ei wario b/f/ Arall | 600 |
| Grant Addysg Llywodraeth Cymru | 438 |
| Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi | 400 |
| **Cyfanswm Cronfeydd sydd ar gael 2014/15** | **11,061** |

4.5 Mae'r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Yn gyntaf, ceir prosiectau untro fel ysgol newydd neu ailwampio canolfan hamdden, mae'r ail fath o wariant yn 'ddyraniad bloc'. Mae'r rhain yn rhaglenni parhaus o waith sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (ac efallai byth yn cael eu cwblhau) e.e. cynnal a chadw ysgolion. Gall yr arian i dalu am elfennau o'r gwaith hwn ddod o gyllidebau trwsio a chynnal a chadw ond mae rhan sylweddol yn cael ei hariannu drwy'r cynllun cyfalaf.

**Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

4.6 Yn sgil y toriadau parhaus yn yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor, cytunwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol i wahodd cynigion yn unol â'r dyraniadau bloc a gytunwyd yn flaenorol gan adrannau. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 11 o gynigion dros nifer o gyfarfodydd.

4.7 Cyflwynwyd pob cais gan bennaeth gwasanaeth. Mae rhai materion a gododd o'r broses hon isod:

- Cynigir dyrannu £1.7m i gefnogi Cymorth Adnewyddu Tai y Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Argymhellir dyraniad o £175k ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Teleofal. Mae'r cyllid hwn yn cael ei dargedu at alluogi'r henoed a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Cytunodd yr Aelodau yn 2011/12 i ddyrannu hyd at £1.3m i'r ystâd amaethyddol er mwyn galluogi gwaith a fyddai'n cefnogi symleiddio'r ystâd ac yn ei dro, cynhyrchu derbyniadau cyfalaf.

Mae £1.16m wedi'i ddyfarnu ar gyfer y gwaith hwn dros y tair blynedd diwethaf, ac felly mae’r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell dyrannu £140k sy'n weddill i'r Ystâd Amaethyddol.

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion a rhai nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, DDA ac ati. Argymhellir bod £2.075m yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion (cynnydd o £160k dros 2013/14) a £450k i waith cyfalaf cynnal a chadw nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach fod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn penderfynu ynghylch yr union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Mae Priffyrdd wedi derbyn £100k i gefnogi benthyca darbodus fel rhan o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2014/15. Bydd hyn yn caniatáu tua £1.65m o wariant cyfalaf. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £162k o gyllid refeniw i Sir Ddinbych i ariannu benthyca darbodus, a chyda'i gilydd bydd hyn yn cynhyrchu gwaith cyfalaf priffyrdd o tua £4.10m.

- Mae cyllid am gyfanswm o £335k mewn perthynas â chynllun Rhwystr Diogelwch yr A525, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor, wedi cael ei ryddhau yn ôl i’r cynllun cyfalaf oherwydd nad yw'r cynllun hwn wedi symud ymlaen. Mae cynllun diwygiedig wedi cael ei adolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac mae'r grŵp yn argymell cyfuno’r cynnig hwn â'r Dyraniad Bloc Priffyrdd.

- Mae manylion llawn am y cyllid a argymhellir i Briffyrdd yn cael eu dangos yn Atodiad 2

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5m, yn unol â 2013/14.

4.8 Mae Atodiad 1 yn dangos y prosiectau a restrir gyda’r cyllid a argymhellir ar gyfer pob un. Mae pob prosiect sy'n cael ei argymell i'w gymeradwyo yn cael ei ddangos o dan golofn wahanol yn yr atodiad:

- PB Priffyrdd - £4.6m. Mae hyn yn cynnwys benthyca darbodus o £4.1 miliwn i’w gefnogi gan y gyllideb refeniw fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor 27 Ionawr 2014. Mae hefyd yn cynnwys £0.335m sydd wedi’i ryddhau yn ôl i'r cynllun cyfalaf mewn perthynas â Rhwystr Diogelwch yr A525. Yn ogystal, mae Cronfeydd Darbodus ar gael ar gyfer Lleihau Ynni Goleuadau Stryd - £0.200m.
- Cronfeydd y Cyngor - Mae'r rhain yn gronfeydd fel grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf, a chronfeydd wrth gefn heb eu gwario. Mae'r arian hwn ar gyfer blwyddyn yn unig.

4.9 Mae aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol fel a ganlyn:

- Aelod Arweiniol y Cabinet - Cyllid ac Asedau
- Aelod Arweiniol y Cabinet - Datblygu Economaidd
- Aelod Arweiniol y Cabinet - Moderneiddio a Pherfformiad
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Archwilio
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Uchelgais Cymunedol ac Economaidd
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau o ran Costau**

Mae costau'r cynlluniau yn cael eu dangos yn Atodiad 2. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu diwallu drwy gyllideb refeniw 2014/15.

6.2 **Goblygiadau o ran Staffio / T G / Swyddfeydd**

Mae'n ofynnol i bob prosiect newydd gwblhau Cynnig Prosiect neu ffurflen Achos Busnes a bod unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun archwiliad gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo’n briodol, allyriadau carbon fesul tunnell cyn ac ar ôl y prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn allyriadau carbon cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn gallu ymdopi â datblygiadau’r dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

Bydd cynnydd / gostyngiad yn y defnydd o offer TG yn effeithio ar gostau trydan a chost carbon.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd y dyraniadau bwriedig ar gyfer bob prosiect yn cael eu hail-asesu cyn cychwyn i gadarnhau nad oes unrhyw effaith arwyddocaol. Mae'r broses AEC yn cael ei hintegreiddio i bob cynnig yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cyfalaf.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Penaethiaid Gwasanaeth gyflwynodd y cynigion. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau Cabinet ac Archwilio wedi bod yn rhan o'r broses.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, gyda chopïau caled o'r ceisiadau yn cael eu lleoli yn ystafell yr Aelodau, a chynigion prosiectau ar gael i'w gweld ar Mod.Gov

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn briodol yn ei asedau. Gyda'r gostyngiad parhaus yng ngwir werth cronfeydd Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gorfod dibynnu ar ei adnoddau ei hun fwyfwy.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 **Risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chytuno â'r argymhelliad/ion:**

Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau ddim yn symud ymlaen, colli grant ac amhariadau i wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio os na fuddsoddir, a gall hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 **Risgiau sy'n gysylltiedig â chytuno â'r argymhelliad/ion:**

Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, caiff yr holl gynlluniau eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac maent hefyd yn destun proses barhaus o fonitro ac adrodd misol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Gofynnir i Awdurdodau Lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972) wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.